# Adroddiad Blynyddol Cynghorwyr CBSP

**Y Cynghorydd C. Davies** **Ward: Caerau**

**Plaid: Cynghrair Ddemocrataidd Llynfi**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy mhrif weithgareddau yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar **30 Ebrill 2025.**Mae'n cael ei ddarparu er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Y farn a fynegir yn yr adroddiad hwn yw barn y Cynghorydd ac nid ydyw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr..

**Y Rôl a Chyfrifoldebau**

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli **Caerau** ar 5 Mai 2022. Rwyf wedi parhau i gyflawni amrywiaeth o rolau yn y Cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi'n aelod o sawl pwyllgor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi codi dros 100 o ymholiadau etholwyr yn ffurfiol gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill yr ydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynychu nifer o Weithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi fy helpu i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a'm ward.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am fy rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau drwy ddilyn y ddolen hon:

Y Cyng. Chris Davis

**Gweithgareddau Etholaethol**

Rwy'n parhau i weithio'n agos gyda V2C a Thai Hafod ar ran eu trigolion ynglŷn â materion lleithder, atgyweiriadau a gwasanaethau ac rwy'n dal i ymwneud â thrigolion Caerau y cafodd eu cartrefi eu heffeithio gan gynllun Arbed.

Mae'r gwaith o adnewyddu'r ardal chwarae yn Nant-y-ffyllon, yr oeddwn yn rhan ohono, bellach wedi'i gwblhau.

Erbyn hyn fi yw llywodraethwr BCBC ar gyfer Ysgol Gynradd Nan-y-ffyllon.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Mae'r Ardd Gymunedol wrth ymyl Gweithdy Sied Dynion Caerau bellach ar agor ar ôl i mi, fel Cadeirydd y Menshed, helpu i gaffael cyllid gan BCBC fel rhan o'r prosiect Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, ac rwy'n annog cyfranogiad plant o ysgolion lleol.

Unwaith eto, fe wnes i helpu i drefnu a mynychu taith sled Siôn Corn drwy Faesteg a Chwm Llynfi ar ddwy noson ym mis Rhagfyr, yn ogystal â threfnu ogof Siôn Corn yng ngweithdy Sied Dynion Caerau ar gyfer y plant.

Roedd coed Nadolig ffres hefyd yn cael eu darparu am ddim i nifer o ysgolion cynradd a chartrefi gofal lleol gan y Menshed.

**Gweithgareddau/Materion Eraill**

Fel Maer Maesteg, cynrychiolais y Cyngor Tref mewn nifer o ddigwyddiadau lleol, a chyda phwyllgor o wirfoddolwyr, cymerais ran mewn nifer o ddigwyddiadau codi arian a gododd £7950 a roddwyd i'm helusennau lleol enwebedig gan gynnwys Cymdeithas Glowyr Afan a Chwm Llynfi, a Men Shed Caerau, y ddau ohonynt yr wyf yn Gadeirydd arnynt, ynghyd â Teuluoedd Arbennig Maesteg.

Rwy'n parhau i fod yn ymddiriedolwr ar Hafan Ddiogel Maesteg, sy'n gofalu am yr Wcrainiaid sydd wedi'u dadleoli sy'n byw yng Nghwm Llynfi.

**Y Cynghorydd: C. Davies** **Dyddiad: 04.07.2025**